

## Y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru): Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

### Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i'r **Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)** ('y Bil') yn ystod trafodion Cyfnod 2.

### Cefndir

Cyflwynwyd **y Bil** ar 14 Hydref 2013 gan Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, a phenderfynnodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Bil fod yn rhan o gylch gwaith y **Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd** ('y Pwyllgor'), ond cytunodd y dylid hepgor ystyriaethau Cyfnod 1.

Ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Bil cyn y ddatl yng Nghyfnod 1, ac anfonodd **lythyr at y Gweinidog**.

Cymeradwywyd y Bil yn unfrydol gan y Cynulliad yng Nghyfnod 1 yn dilyn **dadl ar ei egwyddorion cyffredinol** yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Hydref 2013.

**Cynhaliwyd ystyriaethau Cyfnod 2 ar 14 Tachwedd 2013**. Cyflwynwyd cyfanswm o 24 o welliannau, a gosodwyd 15 ohonynt gan Lywodraeth Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael yn y **Crynodeb o'r Bil** a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

### Hysbysiadau ynghylch ymafael

Derbyniwyd gwelliant 11. Y bwriad yw ei gwneud yn glir i bwy y rhoddir hysbysiad ynghylch ymafael a phryd y caiff yr hysbysiadau hynny eu rhoi. Mae'r gwelliant yn newid adran 3(3) er mwyn sicrhau ei bod yn glir y rhoddir hysbysiad i gwnstabl bob amser. Os bydd rhywun yr ymddengys mai ef yw perchennog y ceffyl, bydd ef hefyd yn cael hysbysiad o fewn 24 awr i'r adeg yr ymafaelwyd yn y ceffyl.

### Hysbysiadau ynghylch costau

Derbyniwyd gwelliant 17, a osodwyd gan y Llywodraeth. Mae'n ychwanegu isadrannau newydd yn adran 4 ac adran 5, gan roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi hysbysiad i'r sawl y darganfyddir mai ef yw perchennog y ceffyl, a bod yr hysbysiad hwnnw'n nodi'r costau y bydd y perchennog yn atebol i'w talu i'r awdurdod lleol, a sut y cyfrifwyd y costau hynny. O dan adran 4, rhoddir yr hysbysiad hwn cyn dychwelyd y ceffyl i'r perchennog hwnnw. Ar ôl gwaredu ceffylau, rhaid rhoi hysbysiadau tebyg yn unol ag adran 5. Mae gwelliannau'r Llywodraeth hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi gwybod i'r perchennog, drwy hysbysiad, bod ganddo hawl i gyfeirio anghydfod ynghylch y costau hynny i'w ddatrys gan Weinidogion Cymru, a sut y gellir arfer yr hawl hwnnw.

### Gwaredu ceffylau sydd wedi eu cadw

Derbyniwyd gwelliannau 18, 19, 20 ac 21, a osodwyd gan y Llywodraeth. Mae'r gwelliannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i berchennog y ceffyl, sy'n nodi'r swm y mae'r perchennog yn atebol i'w dalu, ym marn yr awdurdod lleol, am waredu'r ceffyl. Mae hefyd yn nodi sut y cyfrifwyd y swm hwnnw ac yn egluro hawl y perchennog i gyfeirio unrhyw anghydfod i Weinidogion Cymru, a sut i arfer yr hawl hwnnw.

## Costau a ysgwyddir gan drydydd

Tynnwyd gwelliant 10 gan Blaid Cymru yn ôl ar ôl i'r Gweinidog gytuno i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar y costau a ysgwyddir gan unigolion a sefydliadau, ac eithrio awdurdodau lleol.

Dywedodd y Gweinidog ei fod yn fodlon gwneud hynny gan ymrwymo i lunio adroddiad erbyn diwedd 2014.

## Apelau

Derbyniwyd gwelliannau 23 a 22. Mae gwelliant 7 yn dileu apelau o wyneb y Bil, gan gynnwys yr angen i wneud is-ddeddfwriaeth. O dan adran newydd, sef 'Datrys anghydfodau am symiau taladwy', os bydd anghydfod rhwng perchennog ceffyl ac awdurdod lleol ynghylch y swm sy'n daladwy i'r awdurdod lleol hwnnw, neu ganddo, gall perchennog y ceffyl, o fewn saith diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y bydd yn cael hysbysiad, gyfeirio'r anghydfod i'w ddatrys gan Weinidogion Cymru, gan nodi'r rhesymau am yr anghydfod.

Os bydd Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o'r fath, rhaid iddynt ei drosglwyddo i'r awdurdod lleol, y bydd ganddo saith diwrnod i gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru gan ddechrau ar y diwrnod y daeth yr hysbysiad i law.

Efallai y bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn gofyn i'r awdurdod lleol ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n briodol, yn eu barn hwy, i'w cynorthwyo i ddatrys yr anghydfod.

Mae'r gwelliant hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu ar swm yr atebolrwydd cyn gynted â phosibl. Ni chaiff yr awdurdod lleol waredu'r ceffyl tan y bydd yr anghydfod wedi'i ddatrys. Mae hyn, unwaith eto, yn sicrhau yr ymdrinnir â'r materion hyn mewn modd prydlon.

Mynegodd aelodau'r gwrthbleidiau bryderon fod cwmpas yr adran newydd yn rhy gul. Addawodd y Gweinidog i'r Aelodau, pe byddent am wneud unrhyw sylwadau am natur y broses apelau, y byddai'n eu cymryd o ddifrif, ac yna'n cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3.

## Canllawiau

Gwrthodwyd gwelliannau'r gwrthbleidiau mewn perthynas â chanllawiau statudol. Fodd bynnag, nododd y Gweinidog y byddai'r Canllawiau ar gael ar y dyddiad cychwyn. Addawodd hefyd i ddarparu drafft o'r canllawiau i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo'n bosibl, a chyn iddynt ddod i rym. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor wneud sylwadau ac awgrymu gwelliannau i'r canllawiau cyn iddynt ddod i rym, a chyn i'r ddeddfwriaeth gychwyn.

## Dehongliad

Diben gwelliant 24 yw sicrhau cysondeb rhwng yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar wyneb y ddeddfwriaeth. Mae'n dileu'r gair 'hinny' o'r fersiwn Saesneg o'r Bil.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am Gyfnod 2 y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru), cysylltwch ag **Alys Thomas**, [alys.thomas@cymru.gov.uk](mailto:alys.thomas@cymru.gov.uk), y Gwasanaeth Ymchwil. Neu **Alun Davidson**, Clerc i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, [alun.davidson@cymru.gov.uk](mailto:alun.davidson@cymru.gov.uk).

Y Gwasanaeth Ymchwil,  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA